Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Teresa House

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/12/2017**

## Cyd-destun

Mae Teresa House yn un o naw ysgol arbennig annibynnol sy’n cael eu cynnal gan Care4Children. Mae’r cwmni wedi’i leoli yn Stockport ac mae’r ysgolion eraill wedi’u lleoli yng ngogledd Lloegr. Mae disgyblion sy’n mynychu Teresa House oll yn byw yn y cartref plant cysylltiedig, sy’n rhannu’r safle.

Mae’r ysgol wedi’i lleoli mewn man gwledig ar hyd arfordir gogledd Cymru. Mae ystafell ddosbarth sydd ar wahân i’r cartref plant. Mae’r ysgol yn defnyddio cyfleusterau yn y prif dŷ ar gyfer rhai gweithgareddau dysgu, er enghraifft coginio.

Mae’r athro arweiniol wedi bod yn ei swydd ers sefydlu’r ysgol yn 2015.

Mae goruchwyliwr addysg yn goruchwylio gwaith holl ysgolion Care4Children.

Pan agorodd yr ysgol yn gyntaf, y bwriad oedd cynnig lleoliadau 12 wythnos. Bellach, mae disgyblion yn aros yn yr ysgol am 18 i 24 mis. O ganlyniad i hyn, mae’r ysgol yn datblygu cwricwlwm newydd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae’r ysgol yn cefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn hynod dda drwy gwricwlwm therapiwtig. O ganlyniad, mae disgyblion yn magu hyder a hunan-barch. Maent yn gallu siarad am eu teimladau, a’u trafod, gydag oedolion yn ogystal â’u cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir, y mae pob aelod staff ar draws y lleoliad addysg a gofal yn ei rhannu.

Mae’r ysgol yn elwa o fod yn rhan o sefydliad ehangach. Mae cyfarwyddwr addysg y cwmni’n chwarae rhan weithgar mewn cynnal yr ysgol yn strategol ac mae’n hynod gefnogol. Lle y bo angen gwelliannau, mae’n sicrhau bod camau’n cael eu cymryd yn brydlon.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol iawn gyda choleg addysg bellach i ymestyn profiadau dysgu’r disgyblion a’u paratoi ar gyfer y dyfodol. Mae cyfathrebu â’r coleg yn digwydd yn rheolaidd ac yn effeithiol. Mae disgyblion yn elwa o gyfnod pontio gwerthfawr, gan gynnwys diwrnod blasu.

Mae presenoldeb disgyblion yn dda iawn, gydag ychydig bach iawn o absenoldebau anawdurdodedig.

Caiff yr adeilad ei gynnal a chadw’n dda ac mae’n cynnig amgylchedd dysgu addas. Mae’r adnoddau’n bodloni anghenion disgyblion unigol yn dda.

Mae’r ysgol yn cynnal asesiad gwaelodlin defnyddiol o’r holl ddisgyblion, yn gysylltiedig â llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Defnyddir y wybodaeth hon i amlygu bylchau mewn dysgu’r disgyblion a llywio cynllunio.

Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigwyr allanol yn effeithiol i gyflwyno agweddau ar y cwricwlwm, er enghraifft artist colur a therapydd harddwch.

**Meysydd i'w datblygu**

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o bynciau diddorol, er enghraifft ffyrdd iach o fyw, lles economaidd a dinasyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw'n cynnig amrywiaeth ddigon eang o gyrsiau neu gymwysterau academaidd a galwedigaethol sy'n berthnasol i gam nesaf dysgu'r disgyblion.

Ar adegau, nid yw staff yn rhoi digon o amser i ddisgyblion fyfyrio cyn ateb cwestiynau. Mae hyn yn cyfyngu ar eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol.

Nid yw prosesau hunanarfarnu a gwella'r ysgol wedi'u datblygu'n ddigonol. O ganlyniad nid oes gan staff ddealltwriaeth ar y cyd o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

**Argymhellion**

A1 Cynyddu'r amrywiaeth o gyrsiau a chymwysterau academaidd a galwedigaethol sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion ac sy'n berthnasol i gam nesaf eu dysgu

A2 Rhoi digon o amser i ddisgyblion fyfyrio pan ofynnir cwestiynau iddynt neu pan fyddant yn cael tasgau i'w gwneud

A3 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir, ac yn llywio cynllunio

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Dd/B

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Teresa House |
| **Rhif yr ysgol** | 6616033 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 11/10/2017 |
| **Perchennog** | Care4Children |
| **Staff** | 1 athro arweiniol, 1 cynorthwyydd addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 4 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd yn gysylltiedig â'r cartref plant |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol ac emosiynol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 14/03/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 17/05/2016 |